play safety forum




# Ffurflen Asesu Risg-Budd

# Esiampl wedi ei Chwblhau

## Cyflwyniad

Mae'r Play Safety Forum, a ffurfiwyd ym 1993, yn bodoli i ystyried a hyrwyddo lles plant a phobl ifainc trwy sicrhau y ceir cydbwysedd rhwng diogelwch, risg a her o fewn darpariaeth chwarae a hamdden.

Mae *Rheoli Risg Mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* yn dangos sut y gall pobl sy'n gyfrifol am ddarpariaeth chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried y buddiannau y bydd y ddarpariaeth yn ei gynnig i blant a phobl ifainc yn ogystal â'r risgiau. Mae'n cychwyn o'r safbwynt, tra bo cyngor ac arbenigedd allanol yn werthfawr, bod y cyfrifoldeb terfynol dros lunio penderfyniadau'n aros gyda'r darparwr.

Ysgrifennwyd y Ffurflen Asesu Risg-Budd yma ar y cyd gan David Ball, Tim Gill a Bernard Spiegal ar ran y Play Safety Forum. Darparwyd nawdd gan, ac mae'r hawlfraint yn berchen i: Chwarae Cymru, Play Scotland, Play England a PlayBoard Northern Ireland.

Cedwir pob hawl. Gellir addasu'r Ffurflen Asesu Risg-Budd i weddu i anghenion y darparwr, ond nid yw'r Play Safety Forum yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw addasiadau.

Hawlfraint © 2014 gan Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland

Argraffwyd yn Yr Alban, DU

ISBN 978-0-95440130-7-3

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch o galon i'r bobl hynny wnaeth gefnogi'r cynlluniau peilot mewn amrywiol leoliadau: Debbie Thelwell, (Little Angels Childcare and Nurseries Ltd); Penny Gosling (Kym Allan Health & Safety Consultants); Mike Garner (Cyngor Sir Ceredigion County Council); a Paul Collings (Timberplay)

# Ffurflen Asesu Risg-Budd

## Diben a chylch gorchwyl y ffurflen

Mae’r ffurflen hon wedi ei chynllunio i gefnogi agwedd gytbwys tuag at reoli risg gan ddefnyddio’r broses o asesu risg-budd (ARB). Caiff ei hanelu at y bobl hynny sydd â rôl wrth ddarparu cyfleoedd chwarae mewn amrywiol gyd-destunau, yn cynnwys ardaloedd chwarae, parciau cyhoeddus, llecynnau gwyrddion, lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, lleoliadau gwaith chwarae, ysgolion a gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Mae’n ehangu ar y ddogfen ganllaw *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* (2il argraffiad), a gyhoeddwyd yn 2013 gan y Play Safety Forum gyda Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland. Gweler y cyhoeddiad hwnnw am drafodaeth fwy cyflawn o’r egwyddorion a’r agwedd a amlinellir yma.

Dylai’r rheini sy’n defnyddio’r ffurflen hon ganolbwyntio ar y risgiau sylweddol y bydd y ddarpariaeth chwarae’n eu cyflwyno. Mae’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn diffinio risgiau sylweddol fel risgiau sy’n waeth na’r rhai a wynebir fel rhan o fywyd bob dydd ac “allai, o bosibl, olygu risg gwirioneddol i iechyd a diogelwch, y byddai unrhyw berson rhesymol yn sylwi arno ac yn cymryd camau i warchod yn ei erbyn.”

## Pam asesu risg-budd?

Mae rheoli risg mewn cyd-destunau chwarae’n wahanol i gyd-destunau’n y gweithle neu mewn ffatri, mewn un modd cwbl allweddol. Mewn darpariaeth chwarae bydd rhywfaint o risg yn aml iawn yn fuddiol, os nad yn hanfodol. Mae plant a phobl ifainc yn mwynhau cyfleoedd chwarae heriol, anturus ble y gallant brofi eu hunain ac ehangu eu sgiliau. Bydd rhoi cyfle i blant wynebu peryglon a chymryd risg yn cynnig buddiannau eraill, fel y cyfle i ddysgu sut i asesu a rheoli y risgiau yma, a rhai tebyg, drostynt eu hunain. O’r herwydd, nid yw damweiniau ac anafiadau o reidrwydd yn arwydd bod problem, oherwydd gwerth profiadau o’r fath i ddysg plant. Yn wahanol i asesu risg confensiynol, bydd ARB yn ystyried buddiannau trwy ddwyn ynghyd ystyriaethau am risgiau a buddiannau tra’n penderfynu ar ymatebion priodol.

Gall ffurfio barn ynghylch y balans rhwng risgiau a buddiannau fod yn gymhleth. Mae'n cynnwys nifer o ffactorau, ac yn aml iawn mae'n rhannol oddrychol. Er enghraifft, gall chwarae plant fod yn anrhagweladwy, a gall y plant fod â diddordebau a doniau amrywiol iawn; gall gwahanol ddarparwyr fod â gwahanol nodau, amcanion a gwerthoedd, y gellir eu mynegi trwy agweddau amrywiol iawn; ac mae cyd-destun y lleoliad, a lefel ac arddull yr oruchwyliaeth, yn ffactorau lleol pwysig. Bydd canllawiau, megis safonau offer chwarae, yn helpu i bennu cyfeirbwyntiau, ond nid ydynt yn cynnig ateb absoliwt, ac nid ydynt ychwaith yn ystyried amgylchiadau lleol.

Mae ambell i amgylchedd a strwythur chwarae'n gymhleth, ac y tu hwnt i brofiadau bob dydd. Mae'n bosibl y bydd llunio barn ar sadrwydd strwythurau, glendid dŵr, trapiau pen neu strwythurau a adeiladwyd mewn coed, er enghraifft, yn galw am rywfaint o wybodaeth technegol ac arbenigedd penodol. Fodd bynnag, fydd achosion eraill ddim yn galw am y fath arbenigedd: gellir seilio penderfyniadau ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad bob dydd. Bydd gwahanol sefyllfaoedd yn gofyn am wahanol fathau a lefelau o arbenigedd, ac mae'r ffurflen hon wedi ei chynllunio i adlewyrchu hyn



## Asesu Risg-Budd ar Waith

Mae cynnwys ARB yn eich system rheoli risg yn gam sylweddol. Gall olygu newid mewn egwyddorion, gweithdrefnau ac arfer ar nifer o lefelau, gan gynnwys meddwl a dealltwriaeth am blant a'u chwarae a'u datblygiad, cyfeiriad a gwerthoedd cyffredinol, rheolaeth y gwasanaeth, goruchwyliaeth safle a staff a gweithdrefnau archwilio a chynnal a chadw parhaus. Gallai hyfforddiant neu adolygiad trefniadol o ryw fath fod o gymorth wrth sicrhau y caiff ystyriaeth o fuddiannau risg mewn chwarae plant eu deall a'u gweithredu'n gywir. Mae'n debyg y byddai rhywfaint o waith peilota a thrafodaeth grŵp / tîm yn ddefnyddiol wrth gyflwyno'r ffurflen am y tro cyntaf.

## Strwythur y ffurflen

Cyn y ffurflen, ceir tabl ar gyfer cofnodi manylion yr asesiad risg-budd. Rhennir y ffurflen yn ddwy adran, i adlewyrchu'r gwahanol lefelau o arbenigedd allai fod eu hangen. Mae'r brif ffurflen yn amlinellu'r ffactorau y dylid ymdrin â hwn mewn unrhyw ARB cyffredinol. Mae'r ffurflen ategol yn holi am y wybodaeth arbenigol a / neu'r arbenigedd allai fod ei angen tra'n cynnal ARB penodol. Ceir geirfa ar y diwedd sy'n cynnwys diffiniadau cryno o rai o'r termau allweddol. Mae'r ffurflen ar gael ar ddau ffurf: Word 2007 (gyda ffurflen wag) a pdf (gyda esiampl wedi ei chwblhau) ar:

www.chwaraecymru.org.uk

www.playengland.org.uk

www.playscotland.org

www.playboard.org

Nid yw'r ffurflen hon yn ddi-gyfnewid: mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn teimlo y byddai o ddefnydd iddynt ei diwygio neu ei haddasu.

## Trosolwg o Asesu Risg-Budd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r prosiect / cynnig:** | Siglen mewn coeden ym Mharc Gwych, Cyngor Bwrdeistref Anhygoel | | |
| **Math o asesiad (tick one box):** | *Dylunydd* | ✔ | |
| | *Darparwr / rheolwr* | | |
| | *Ar ôl gosod* | | |
| | *Monitro* | | |
| **Assessor:** | *Cwblheir gan* | Dr Dylunydd Rhagorol | |
| | *Swyddogaeth* | Pensaer Tirwedd | |
| | *Dyddiad* | | |
| **Disgrifiad a lleoliad y cyfleusterau, y nodwedd arbennig, y weithgaredd neu'r offer:** | | | |
| | Siglen coeden wedi ei gosod ar dderwen mewn ardal goediog o'r parc | | |
| **Dyddiad adolygu'r asesiad risg-budd:** | | | |
| | Gan y cleient, unwaith iddi gael ei gosod | | |
| **Llofnod uwch-weithiwr/rheolwr:** | | | |
| | | | |

## Prif Ffurflen: Asesu risg-budd

| | |
|---|---|
| **Buddiannau:** | • Pleser a hwyl<br>• Chwarae corfforol a chyfleoedd myfyriol<br>• Cymaint a phosibl o bosibilrwydd troelli ac o ganlyniad potensial da ar gyfer rhywfaint o ansicrwydd, ac o'r herwydd, am her<br>• Datblygu hunan hyder a lles<br>• Dysgu trwy brofiad: damweiniau y gallai rhywun ddysgu oddi wrthynt<br>• Absenoldeb Arwyneb Lleddfu Ardrawiadau (IAS) yn galluogi defnyddwyr y siglen i wynebu amodau tebyg I rai gyda siglenni coed eraill – profiad fyddai'n ddefnyddiol os/pan y byddant yn codi eu rhai eu hunain<br>• Ymgysylltu a'r amgylchedd naturiol ac elfennau naturiol<br>• Potensial i gynnwys y siglen mewn gemau dychmygus ble mai'r coetir yw'r cyd-destun chwarae e.e. Tarzan<br>• Yn siglo trwy'r coed<br>• Cymysgu rhwng y gwahanol oedrannau. |
| **Risgiau** *(sy'n ystyried unrhyw wybodaeth technegol a ddynodir yn y ffurflen ategol after isod):* | **YR OFFER YN METHU**<br>**Offer dal y siglen yn methu oherwydd ol traul**<br>Dylai ol traul fod yn amlwg trwy archwiliadau mewnol rheolaidd, yn unol a'r amserlen gynnal a chadw arfaethedig (atodiad).<br>**Offer dal y siglen yn methu oherwydd fandaliaeth**<br>Mae hyn yr un peth ag ar gyfer siglen arferol. Mae'r siglen wedi ei angori yn ei lle gyda chadwyn fetal gref, cebl a bolltiau, fyddai'n galw am ymdrech sylweddol gyda llif law i dorri trwyddynt.<br><br>**RHAN O'R GOEDEN YN TORRI**<br>**Gallai'r gangen neu'r pren cynhaliol gwympo**<br>Mae peth risg o fan anafiadau e.e. cleisiau, crafiadau ac, o bosibl, torri esgyrn hirion. Byddai'r rhain, ar y cyfan, yn digwydd o ganlyniad i gwympo o'r siglen i'r |

llawr. Defnyddir sedd pendil, fydd yn atal mwy nag un defnyddiwr rhag defnyddio'r siglen ar yr un pryd, ac o ganlyniad lleihau'r elfen o ansicrwydd. Mae'r goeden wedi cael ei harchwilio gan arbenigwr coed ac wedi ei hystyried yn addas i'r diben (gweler adroddiad yr arbenigwr coed [heb ei gynnwys yma]). Ceir tystysgrif Llwyth Gweithio Diogel ar gyfer yr holl folltiau rhwng y 2 ddolen (Ffig. 5 ar y darlun manyleb).

**Gallai'r goeden / y gangen gael ei difrodi o'i defnyddio**

Ceir mat gwarchodol rwber rhwng yr holl bwyntiau traul a'r goeden. Bydd cynllun offer dal y siglen (gweler y darlun manyleb) yn lleihau unrhyw draul ar y goeden. Mae'r offer dal wedi ei ddylunio gydag angor ychwanegol sy'n cysylltu a chorun y goeden, sy'n sicrhau ail fan cyswllt os digwydd, yn annhebygol iawn, i'r gangen dorri.

**CWYMPIAU NEU WRTHDRAWIADAU ERAILL**

**Gallai person gwympo ar rywbeth called**

**Absenoldeb arwyneb lleddfu ardrawiadau (IAS)**

Posibilrwydd o anaf i'r pen wrth gwympo. Yr arwyneb presennol yw clytiau o laswellt a trwch o ddail ar lawr. Nid oes unrhyw gerrig na gwreiddiau wedi gwthio i'r wyneb. Mae'n annhebyg iawn bod uchder y gwymp yn uwch na 1.4m. Noder pa mor gyffredin yw'r achosion o blant a phobl ifainc yn creu eu siglenni rhaff eu hunain dros arwynebau tebyg, a risg cyffredinol isel y weithgaredd yma.

**Gwrthdaro'n erbyn gwrthrych arall**

Dylid cwympo bonyn y goeden gyfagos a symud y llithren sydd gerllaw i blatfform arall.

**Risg gwrthdaro'n erbyn y goeden neu'r polyn cynnal**

Fe allai fod yn bosibl i daro'r goeden gynhaliol, ond mae'n rhwydd iawn i'w gweld ac mae'n debyg y'i defnyddir ar gyfer gwthio'n ei herbyn a'r traed.

**Gwrthdaro'n erbyn person arall**

Ni chaiff defnyddwyr y siglen, na defnyddwyr eraill, ei

| | |
|---|---|
| | rhwystro rhag gweld beth sydd o'u hamgylch.<br><br>**RISGIAU ERAILL**<br>**Perygl crogi**<br>Bach iawn yw'r risg o grogi, gan fod y siglen wedi ei chysylltu i gadwyn a llawes amdani, ac o'r herwydd mae'n anodd iawn i roi dolen neu gwlwm ynddi. |
| **Ffactorau lleol:** | • Lleoliad coetir aeddfed gydag elfennau chwarae anturus naturiol e.e. dringo coed<br>• Tystiolaeth o nifer fawr o siglenni rhaff cartref ar goeden sydd bellach yn rhy fregus i'w cynnal<br>• Mae'r siglenni presennol yn cynnig heriau bach iawn ac maent yn hongian o ffram cymharol isel<br>• Bach iawn yw'r gyllideb sydd ar gael i gynyddu'r elfennau chwarae y mae'r safle'n eu cynnig<br>• Mae angen cyfleoedd sy'n fwy heriol ar y safle hwn<br>• Bydd mwy o ddarpariaeth chwarae'n yr adran is yma o'r safle yn gwahodd mwy o ddefnydd ac yn helpu i sicrhau nad yw'r ardal yma'n troi'n geto<br>• Mae tai a ffordd yn gyfagos er mwyn gallu galw am help. |
| **Cynseiliau a / neu gymariaethau:** | • Nifer o enghreifftiau wedi eu cofnodi, ac yn ein profiad personol ni, o blant a phobl ifainc yn creu siglenni rhaff wedi eu gosod ar goed mewn sefyllfaoedd heb oruchwyliaeth gyda risg bychan iawn o anafiadau sylweddol<br>• Canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth ar "Siglenni rhaff, cuddfannau, tai pen coeden a thanau"<br>• Mudiad y Sgowtiaid<br>• Cyfleusterau Go Ape ble fo risg, antur a derbyn cyfrifoldeb personol wrth galon y profiad. |
| **Penderfyniad:** | Mae'r siglen rhaff arfaethedig yn cynnig lefel derbyniol o risg. Bwrw ymlaen gydag addasiadau pwrpasol i'r safle ac i'r trefniadau rheoli (gweler isod). Mae'r arwyneb 'naturiol' presennol yn briodol i'r lleoliad. Efallai y gallai defnyddio IAS yn yr ardal gwympo leihau'r perygl o anafiadau. Noder, fodd bynnag, y nifer |

| | |
|---|---|
| | o enghreifftiau o blant a phobl ifainc yn creu eu siglenni rhaff eu hunain a risg cymharol isel y weithgaredd hon. (Nid yw tyllu a llanw ag arwyneb rhydd yn bosibl o amgylch gwreiddiau heb ddifrodi'r goeden neu newid lefel y tir, a byddai angen ei gynnal a'i gadw i'r dyfodol. Byddai matiau arbed glaswellt yn gostus ac mae'r glaswellt yn annhebygol o dyfu trwyddynt. Byddai matiau hefyd yn lleihau naturioldeb y cyd-destun coetir a byddai'n debygol o greu peryglon baglu, yn arbennig dros amser.) Felly, penderfynwyd nad yw IAS yn angenrheidiol. |
| **Camau gweithredu a gymerwyd:** | Dylid cael gwared a bonyn y goeden gyfagos a symud y llithren. |
| **Rheolaeth a monitro parhaus:** | • Dylid "archwilio" y siglen a'r offer sy'n ei dal am arwyddion arferol ol traul, yn unol a'r amserlen gynnal a chadw arfaethedig, ar ol y mis cyntaf a'r ail fis a'i adolygu, trwy brofiad, wedi hynny)<br>• Dylai arbenigwr coed archwilio'r goeden am ddifrod yn flynyddol a'i adolygu, trwy brofiad, wedi hynny<br>• Os y bydd angen archwiliad allanol ar gyfer offer dal y siglen, a gan nad yw hwn yn eitem safonol, dylai hyn gael ei gynnal gan berson sy'n meddu ar brofiad digonol ac ni ddylid ei archwilio gan berson y mae eu hunig wybodaeth, neu eu prif wybodaeth, yn ymwneud a safonau EN<br>• Mae'r ddogfen hon yn asesiad risg-budd Cyfnod Dylunio. Mae'n bosibl y bydd materion pellach yn codi o ganlyniad i osod y siglen hon ac mae'n bosibl y bydd angen addasiadau. Yn ogystal, argymhellir bod y cleient yn cynnal asesiad risg-budd ar ol gosod. |

*Ceir Geirfa ar ddiwedd y ddogfen sy'n egluro'r gwahanol dermau*

## Ffurflen Ategol: Gwybodaeth arbenigol a/neu arbenigedd sy'n angenrheidiol (os o gwbl) ar gyfer yr asesiad risg-budd hwn

Defnyddiwch y tabl isod i nodi gwybodaeth am unrhyw wybodaeth arbenigol neu dechnegol ychwanegol y teimlir sydd ei angen. Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd angen mewnbwn o'r fath. Os yw hyn yn wir, dylid gwneud nodyn priodol fel 'ddim yn berthnasol' neu 'D/B' yn y tabl (y dylid, fel arall, ei adael yn wag). Mewn amgylchiadau eraill, fel rhai sy'n cynnwys strwythurau unigryw neu safleoedd anghyffredin, mae'n bosibl y gallai mewnbwn arbenigol fod yn briodol. Gallai arbenigedd o'r fath, er enghraifft, ymwneud â'r pynciau canlynol: coed, peirianneg strwythurol, arbenigedd rhaffau, dŵr, pridd, safonau EN a chynnal a chadw. Mewn achosion prin, efallai y bydd angen gwybodaeth am feysydd arbenigol eraill hefyd. Cofiwch sicrhau fod gwybodaeth perthnasol yn cael ei nodi uchod yn y brif ffurflen.

| Gwybodaeth neu arbenigedd | Person sy'n darparu'r wybodaeth / cyflawni'r asesiad | Unrhyw wiriadau a gwblhawyd a'r camau gweithredu a argymhellir |
|---|---|---|
| | Mr Woody (Trees R Us) | Dilyn cyngor am: y lleoliad a'r dull o gysylltu'r siglen a'r goeden, yn unol ag adroddiad yr arbenigwr coed [heb ei gynnwys yma] |
| | Ms Hemp (Ropes Ahoy) | Dilyn cyngor am: y math o gadwyn, dolennau a dulliau cysylltu (fel uchod) |

## Geirfa

**Asesu risg-budd (ARB):** offeryn i gynorthwyo rheoli risg sy’n dwyn ynghyd yr ystyriaethau am risgiau a buddiannau mewn un farn unigol.

**Buddiannau:** yr elfennau cadarnhaol, penodol, y bydd plant a phobl ifainc yn eu hennill trwy’r cyfleoedd chwarae sy’n destun yr asesiad (cymdeithasol, corfforol, emosiynol, addysgol, seicolegol, ayb).

**Camau gweithredu a gymerwyd:** Dylai hyn nodi’r camau gweithredu a gymerir o ganlyniad i’r penderfyniadau a wnaethpwyd. Gallai’r dewisiadau gynnwys:

- Dim
- Cyflwyno neu gynyddu monitro buddiannau a / neu risgiau
- Cyflwyno neu gynyddu goruchwyliaeth
- Trefnu archwiliad technegol
- Cysylltu â’r gwneuthurwr i wneud addasiadau
- Cyflwyno mesurau eraill i leihau risgiau
- Cyflwyno nodweddion ychwanegol neu weithgareddau sy’n cynyddu’r lefel o risg a her neu fuddiannau eraill
- Cwrdd â rhieni / defnyddwyr i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch eich agwedd tuag at risg a budd
- Cael gwared â’r cyfleuster / strwythur, neu ohirio’r weithgaredd

**Cynseiliau a / neu gymariaethau:** offer, amgylcheddau, rhannau rhydd neu sefyllfaoedd posibl tebyg ble y mae chwarae’n digwydd, unai’n lleol neu mewn ardal arall. Mae’r adran hon yn arbennig o ddefnyddiol wrth ymdrin â mentrau anarferol, dyfeisgar, anghonfensiynol neu arloesol, er mwyn helpu i gyfiawnhau pam na ddefnyddir dulliau asesu safonol. Gellir ei adael yn wag os ydych yn asesu prosiect cyffredin.

**Ffactorau lleol:** unrhyw faterion perthnasol sy’n benodol i’r lleoliad sy’n destun yr asesiad (er enghraifft, os yw’n agos i dai, nodweddion y trigolion lleol a defnyddwyr arferol, natur yr oruchwyliaeth, mynediad i’r safle, maint y safle, os yw’n agos i ffyrdd prysur neu beryglon eraill, ayyb. Dylid cyfeirio hefyd at unrhyw strategaethau a pholisïau ategol perthnasol.

**Monitro a rheoli parhaus:** Nodwch yma unrhyw gamau gweithredu pellach y mae'n bosibl y bydd angen eu cymryd. Gallai'r rhain gynnwys:

- Amserlenni cynnal a chadw
- Gweithdrefnau archwilio
- Adolygiadau o gofnodion damweiniau, anafiadau neu ganlyniadau eraill
- Ymarferion adborth defnyddwyr

**Penderfyniad:** dyma gasgliad yr aseswr yn dilyn cwblhau asesiad risg-budd. Gallai'r opsiynau gynnwys:

- Bwrw ymlaen / parhau heb unrhyw addasiadau i'r amgylchedd chwarae neu i arferion gwaith a pharhau i fonitro
- Bwrw ymlaen / parhau gyda rhywfaint o addasiadau penodol i'r amgylchedd chwarae neu i arferion gwaith tra'n parhau i fonitro
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r amgylchedd chwarae tan y gellir cwblhau gwaith arno / tan y gellir cynnal asesiadau pellach

**Risgiau:** yn gyffredinol, mae'r gair 'risg' yn cyfeirio at y tebygolrwydd neu'r siawns o ganlyniad anffafriol. Mewn cyd-destunau rheoli risg, mae'r gair yn tueddu i gynnwys elfen o ddifrifoldeb y canlyniad, yn ogystal â'i debygolrwydd. Mae'r HSE yn diffinio risg fel y siawns "y gallai rhywun gael ei niweidio gan [berygl] ynghyd ag arwydd o ba mor ddifrifol y gallai'r niwed fod."

## Iaith arall a ddefnyddir tra'n asesu risgiau a buddiannau ar gyfer chwarae

**Diogel:** Efallai mai 'diogel' neu 'ddiogelwch' yw'r termau y dewch ar eu traws amlaf mewn trafodaethau ynghylch plant a risg, megis: "A yw'r maes chwarae / parc / coeden / sgwâr cyhoeddus yma'n ddiogel?" Nid oes ateb syml i gwestiynau fel hyn, gan fod y gair 'diogel' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl (gweler *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu,* td 31).

**Peryglon:** Mae peryglon yn elfennau allai, o bosibl, achosi niwed. Mae'r HSE yn diffinio perygl fel "unrhyw beth allai achosi niwed, fel cemegolion, trydan, gweithio ar ysgolion, drôr agored, ayyb." Nid oes yr un weithred na'r un gwrthrych na allai fod yn beryglus mewn amgylchiadau penodol. Mae'n gwbl anymarferol i drin pob perygl posibl yr un mor ddifrifol â'i gilydd. Wrth reoli risg, bydd angen llunio barn ynghylch:

- Pa risgiau a pheryglon sydd angen eu lliniaru neu eu dileu
- Pa risgiau a pheryglon allai fod yn dderbyniol neu'n ddymunol, oherwydd eu buddiannau i blant a phobl ifainc
- Beth, os unrhyw beth, gaiff ei wneud ynghylch risgiau a pheryglon a ddynodwyd.